

PORTAL 2022

Dyddiau cau: 9am, 18 Gorffennaf 2022

Mae Llantarnam Grange yn chwilio am leisiau newydd mewn celf a chrefft gyfoes i arddangos yn ein sioe flynyddol i raddedigion, Portal.

Os ydych wedi graddio ar unrhyw gwrs celfyddyd gymhwysol neu weledol mewn prifysgol yn y DU yn 2022, yna rydych yn gymwys i ymgeisio.

Beth yw Portal?

Mae Portal yn gyfle i bymtheg o grefftwyr, artistiaid, dylunwyr, ffotograffwyr a gwneuthurwyr sy'n graddio gymryd rhan yn yr arddangosfa flynyddol o artistiaid graddedig yn Llantarnam Grange, Cwmbrân, De Cymru.

Mae Portal hefyd yn sgwrs ehangach ynglŷn â'ch ymarfer a'ch uchelgeisiau, lle mae'r staff a gweithwyr llawrydd cynorthwyol yn gweithredu fel seinfwrdd a rhwydwaith – ac yn eich helpu i ddatblygu gyrfa iach yn y sector.

Beth sydd ar gynnig?

Mae Portal yn gyfle i gymryd rhan mewn arddangosfa grŵp a gynhelir yn Oriel 1 yn Llantarnam Grange. Bydd yr artistiaid dethol yn cael profiad o arddangos eu gwaith i'r cyhoedd, bod yn rhan o gyhoeddiad, a datblygu cymunedau artistig newydd.

Trwy gydweithio'n agos â'n tîm, byddwch yn cael cyfle dysgu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddeall sut mae gweithio yn y celfyddydau.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

PORTAL 2022

Dyddiau cau: 9am, 18 Gorffennaf 2022

Bydd rhai cyfleoedd mentora mewnol ar gael gyda'n Cyfarwyddwr, y Swyddog Arddangosfeydd neu'r Swyddog Datblygu a Marchnata.

Efallai bydd mwy o gyfleoedd mentora a datblygiad proffesiynol, yn dibynnu ar argaeledd cyllid.

Bydd pob artist sy'n arddangos yn derbyn ffi o £100 am gymryd rhan, ynghyd â'r costau unffordd o gludo'u gwaith i Llantarnam Grange.

Efallai bydd mwy o gymorth ariannol, yn dibynnu ar argaeledd cyllid.

Cymhwysedd

- Mae'n rhaid i chi fod wedi graddio yn y celfyddydau cymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2022.
- Bydd o leiaf pum lle yn cael eu cynnig i raddedigion sy'n byw yng Nghymru neu sydd wedi graddio o brifysgolion yng Nghymru.
- Bydd o leiaf pum lle yn cael eu cynnig i raddedigion sy'n cael eu cydnabod yn anabl (yn weladwy neu'n anweladwy) neu i bobl o gefndir Du, Asiaidd neu ethnig amrywiol.

Faint mae'n costio?

Ni chodir unrhyw dâl am ymgeisio i Portal nac am gymryd rhan. Byddwn yn talu o leiaf £100 i artistiaid am gymryd rhan.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

PORTAL 2022

Dyddiau cau: 9am, 18 Gorffennaf 2022

Efallai bydd mwy o gymorth ariannol, yn dibynnu ar argaeledd cyllid.

Dyddiadau Allweddol

- Dyddiad cau: 9am dydd Llun 18 Gorffennaf 2022
- Rhaid cyflwyno gwaith erbyn 24 Awst 2022 fan bellaf
- Dyddiadau'r Arddangosfa: 3 Medi - 29 Hydref 2022
- Digwyddiad Agoriadol: 5-7pm, dydd Gwener 2 Medi 2022
- Rhaid trefnu i ddychwelyd y gwaith erbyn 5 Tachwedd 2022 fan bellaf.

Os bydd rhaid i'r dyddiadau hyn newid, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl artistiaid cyn gynted â phosibl.

Sut gallaf wneud cais?

Llenwch ein cais ar-lein [yma](#).

<https://form.jotform.com/LGAC/portal-2022-application-form>

Mae hwn yn cynnwys

- 100 o eiriau yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn Portal 2022
- 200 o eiriau ynglŷn â'ch gwaith
- Hyd at dair delwedd ac/neu ddogfen yn cynnwys dolennau i hyd at dair ffeil fideo (sy'n cael eu lletya'n gyhoeddus ac yn weladwy ar vimeo/youtube ac ati)

Maint mwyaf y ffeiliau i'w lanlwytho yw 10MB.

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

 @llantarnam.grange  @llantarnam_grange  @LlantarnamGrnge

PORTAL 2022

Dyddiau cau: 9am, 18 Gorffennaf 2022

Dylech gyflwyno eich cais cyn **9am, dydd Llun 18 Gorffennaf 2022.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Portal 2022 a'r broses, neu os hoffech drafod eich cais neu syniadau, cysylltwch â Savanna Dumelow yn: savanna.dumelow@llantarnamgrange.com

Rydym yn deall y gall dyddiadau cau fod yn drafferthus ac yn anodd eu cyflawni am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os teimlwch y byddech yn hoffi ymgeisio ond, am ba reswm bynnag, ni fyddwch yn gallu cwrdd â'r terfyn amser, cysylltwch â ni a byddem yn hapus i drafod cynllun gennych yn anffurfiol ac yn gyfrinachol.

Beth yw'r broses?

Ar ôl y dyddiad cau, **dydd Llun 18 Gorffennaf 2022**, bydd staff Llantarnam Grange yn casglu ac yn adolygu'r cynigion gyda chymorth dau ddewiswr allanol annibynnol (enwau i'w cadarnhau).

Bydd yr artistiaid yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad ar ôl **dydd Llun 1 Awst 2022**, a byddwn yn ceisio cynnig adborth gan y panel dethol os gofynnir amdano.

Bydd disgwyl i'r artistiaid a ddewisir ddarparu gwybodaeth a lluniau yn ymwneud â'u gwaith mewn da bryd, fel y gallwn gynhyrchu a churadu'r arddangosfa yn barod ar gyfer y digwyddiad agoriadol ar **ddydd Gwener 2 Medi 2022.**

Llantarnam Grange
Heol Dewi Sant
St David's Road
Cwmbrân
Cwmbran
NP44 1PD

PORTAL 2022

Dyddiau cau: 9am, 18 Gorffennaf 2022

Ar ôl i'r arddangosfa ddiweddu ar **ddydd Sadwrn 29 Hydref 2022**, gofynnwn i'r holl artistiaid dethol gasglu neu drefnu i ddychwelyd eu gwaith gyda'n Swyddog Arddangosfeydd, heb fod yn hwyrach na **dydd Sadwrn 5 Tachwedd 2022**.

Pob lwc!